

**CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL**

**Cadeirydd: Alun Owen**

Nos Lun Chwefror 6ed 2017 am 7.30 y.h.

**Cofnodion**

Cafwyd trafodaeth ar gychwyn y cyfarfod yn mynegi pryder nad oes digon yn bresennol yn y cyfarfod. Penderfynwyd dal ymlaen gyda'r cyfarfod gan fod angen talu anfonebau.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Alun Edwards, Paul Weston.
2. **Presennol:** Cyng. Gari Jones, Alun Owen, Edmund Rees, Cyngorydd Sirol Dilwyn Roberts ac Enid Williams (Clerc).
3. **Cod Ymddygiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Rhagfyr** – cynigwyd yn gywir gan Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
  - 5.1. Toiletau Cyhoeddus – Dim ymateb gan Steve Teale hyd yma ond derbyniwyd e-bost gan aelod o'r cyhoedd yn cwyno fod y toiletau ar gau ar ddydd Nadolig.
  - 5.2. Offer Chwarae – dim ymateb hyd yma.
  - 5.3. Gwaith cynnal – dim ymateb hyd yma.
6. **Gohebiaeth:**
  - 6.1. Un Llais Cymru – Sesiwn wybodaeth ar y we gan Swyddfa Archwilio Cymru – penderfynwyd na fyddwn yn cymryd rhan.
  - 6.2. Neges o'r wefan – gweler 5.1.
7. **Monitro'r Gyllideb:**

Popeth mewn trefn.
8. **Talu Anfonebau:**
  - 8.1. Cynllun Penrallt – Coeden Nadolig - **£85.00** gyda siec rhif **100277**.
  - 8.2. Un Llais Cymru – cynigiodd Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio talu'r aelodaeth o **£44.00** gyda siec rhif **100278**.

Angen cymeradwyo'r ddau daliad yn y cyfarfod nesaf.
9. **Un Llais Cymru:**

Cafwyd adroddiad o'r pwyllgor diwethaf gan Edmund Rees – dyma fraslun o'r cyfarfod:-

  - 1) Cyflwyniad gan Iwan Williams o Swyddfa Comisiynydd Pobl Hyn. Amlinellodd rôl y Comisiynydd yn diogelu safonau iechyd, byw a chymdeithasol pobl hyn.
  - 2) Trafodaeth ar ymddygiad rhai aelodau o'r cyhoedd tuag at Gynghorwyr Cymuned fel digwyddodd yn Llansannan.
  - 3) Problemau efo Swyddfa'r Archwilwyr Cyhoeddus, cyfarfod wedi bod dim adborth eto.
  - 4) Angen mwy o gwmnïau Cymreig hysbysu yn 'Supplies Directory' wefan Un Llais Cymru.
10. **Gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts**

Cafwyd adroddiad o'r diweddara yng ngwaith y Cyngor Sir.
11. **Unrhyw fater arall:**
  - 11.1. Swyddfa Archwilio Cymru – derbyniwyd anfoneb ar ran yr archwilwyr allanol sef BDO am eu gwaith ar gost o £302.25. Ar ôl trafod hyn penderfynwyd gofyn am fanylder o'r bil cyn ystyried ei dalu gan ei fod yn dair gwaith yn uwch na llynedd.
12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Mawrth 6ed 2017 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd                     **G B Jones**                      
Is-gadeirydd

Dyddiad                     06.03.2017



